

# Agenda – Y Cyfarfod Llawn

---

Lleoliad y cyfarfod:

**Zoom**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 13 Ionawr 2021

Amser y cyfarfod: 13.30

## 315(v2)

---

Cynhelir y cyfarfod hwn drwy gynhadledd fideo.

Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A–D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddulliau electronig.

Mae'r Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.



**Senedd Cymru**  
**Welsh Parliament**

[Gweld y Cwestiynau](#)

### 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

(30 munud)

[Gweld y Cwestiynau](#)

### 4 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol.

### 5 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

### 6 Dadl ar ddeisebau sy'n ymwneud â mynediad at gyfleusterau chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn ystod cyfyngiadau symud

(60 munud)

**NDM7543** [Janet Finch-Saunders \(Aberconwy\)](#)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi'r deisebau canlynol ynglŷn â mynediad at gyfleusterau chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn ystod cyfyngiadau symud:

a) Deiseb '[P-05-1053 Cadwch gampfeydd ar agor ac ystyriwch eu bod nhw mor bwysig â siopau, os cyflwynir cyfyngiadau symud cenedlaethol unwaith yn rhagor](#)' a gasglodd 20,616 o lofnodion;

b) Deiseb '[P-05-1063 Dylid agor cyrsiau golff gan eu bod yn chwarae rôl hanfodol o ran gwella iechyd corfforol ac iechyd meddyliol](#)' a gasglodd 6,317 o lofnodion;

ac

c) Deiseb '[P-05-1074 Cynyddwch nifer y bobl sy'n cael bod mewn mannau awyr agored fel y gall pob tîm yng Nghymru ailddechrau chwarae pêl-droed](#)' a gasglodd 5,330 o lofnodion.

**7 Dadl Grŵp Y Gynghrair Annibynnol dros Ddiwygio – Gohiriwyd**  
(0 munud)

**8 Cyfnod pleidleisio**

**9 Dadl Fer**  
(30 munud)

**NDM7532 [Mark Reckless \(Dwyrain De Cymru\)](#)**

Datblygiadau cyfansoddiadol yng Nghymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 19 Ionawr 2021